

# Derbyn yr anorod

“Yn gwbl ofer y cedwais fy nghalon yn lân.” (adn. 13)

## Beth am ddarllen Salm 73:1–28 ac yna myfyrio

Wedi gweld peth o'r ffordd mae Duw yn gwau manylion ein bywydau i mewn i'w stori fawr ei hun, fe symudwn ymlaen i wynebu'r cwestiwn: Sut y dylem fyw fel rhai'n cymryd rhan yn stori fawr Duw? Yn gyntaf mae'n rhaid inni dderbyn y pethau anorod mewn bywyd. Fe ddechreuodd y seiciatrydd enwog M. Scott-Peck ei lyfr *The Road Less Travelled* gyda'r geiriau hyn: “Mae bywyd yn galed.” Os wynebwn ni'r ffaith honno, meddai, “unwaith y cawn ni wybod mewn gwirionedd bod bywyd yn galed, yna dydy bywyd ddim bellach yn galed. Oherwydd unwaith y derbyniwn hynny, dydy'r ffaith bod bywyd yn galed ddim yn cyfrif mwyach. Gallwn godi uwchlaw iddo wedyn.”

Cawsom ein geni i fyd syrthiedig, ac mae pethau'n digwydd nad ydyn nhw wrth ein bodd. Fel Cristnogion rhaid i ni beidio â disgwyl cael ein heithrio rhag wynebu canlyniadau'r Cwmp. Mae'n wir bod Duw ar brydiau yn goresgyn ei effeithiau (pan fydd, er enghraifft, yn ei drugaredd yn iachau ein cyrff). Ond mae hyd yn oed y rheiny sydd wedi profi ei gyffyrddiad iachusol (ac rwyf fi'n un ohonyn nhw) yn gwybod nad ydy Duw yn iachau pob afiechyd ac y bydd yn rhaid i bob un ohonon ni farw yn y diwedd.

Mae rhai Cristnogion yn dal i honni, os byddwn yn byw ein bywydau yn agos at Iesu, yna ei bod hi'n bosibl byw bywyd sydd yn rhydd o drafferthion ac afiechyd – profiad Gardd Eden o fath. Ond does dim ffordd yn ôl i fewn i Ardd Eden – fe osododd Duw angylion yn fownsars yn y fan honno (Gen. 3:24). Mae rhywbeth gwell na Gardd Eden yn aros amdanom ni, ond nid yma ar y ddaear mae hynny. Yn y cyfamser, rydym yn disgwyl ac yn derbyn yr hyn sy'n anorod mewn bywyd gyda dewrder a gras. “Yn y fan yma,” fel dywedodd ffrind i mi, “mae rhywbeth o'i le ar bopeth; yn y fan draw fydd yna ddim o'i le ar unrhyw beth.”

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Rhuf. 8:20–23;

2 Cor. 12:9

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw gobaith byd sy'n ochneidio?
2. Sut fedrwn ni dderbyn y pethau na allwn ni eu newid?

## Gweddi

Fy Nhad a'm Duw, helpa fi i ddeall 'mod i'n byw mewn byd syrthiedig, ac er nad ydy drygioni ac afiechyd yn rhan o dy fwriadau da di, bod yn rhaid i mi fyw efo nhw a'u goresgyn. Dysga fi sut i dderbyn y pethau na fedraf i eu newid. Yn enw Iesu. Amen.